

# Cytundebau Rhyngwladol

Cytundebau a ystyriwyd ar 13 Medi  
2021

Medi 2021



## 1. Cefndir

1. Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am graffu ar gytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.
2. Gall cytundebau rhyngwladol a lofnodwyd gan Lywodraeth y DU ymdrin â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig neu faterion sydd â goblygiadau polisi pwysig i Gymru.
3. Bydd y Pwyllgor yn ystyried effaith cytundebau rhyngwladol a osodwyd yn Senedd y DU ar Gymru o dan y broses a sefydlwyd gan *Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010*. Mae'n darparu cyfnod craffu cychwynol o 21 diwrnod.
4. Mae ein hystyriaeth o gytundeb rhyngwladol yn ystyried:
  - a yw'n ymgysylltu â chymhwysedd y Senedd; a/neu
  - a oes goblygiadau polisi posibl i Gymru.
5. Ar 13 Medi 2021 gwnaethom ystyried wyth cytundeb rhyngwladol a osodwyd yn ddiweddar yn Senedd y DU.<sup>1</sup>
6. Dyma'r cytundebau a drafodwyd gennym:
  - Y DU/Periw: Cytuniad ar Gydnabod Graddau ar y Cyd
  - Y DU-Japan Protocol ar Ddiwygio'r Cytundeb ar gyfer Cydweithredu o ran y Defnydd Heddychlon o Ynni Niwclear
  - Diogelu Gwybodaeth Gyfrinachol: Cytundebau gyda
    - Y DU/Estonia
    - Y DU/Latfia
    - Y DU/Gwlad Belg
    - Y DU/Yr Eidal

---

<sup>1</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Medi 2021

---

- Confensiwn Byd-eang UNESCO ar Gydnabod Cymwysterau sy'n ymwneud ag Addysg Uwch
- Y DU/Rwsia: Protocol Diwygio'r Cytundeb ynghylch Atal Digwyddiadau ar y Môr

**7.** Cytunwyd i gymryd camau pellach mewn perthynas â saith o'r cytundebau. Mae manylion pob un o'r cytundebau a'n camau gweithredu priodol wedi'u nodi isod.

## 2. Cytundebau sy'n gofyn am gamau pellach

### Y DU/Periw: Cytuniad ar Gydnabod Graddau ar y Cyd

8. Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 17 Mai 2021. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, oedd 29 Mehefin 2021.
  9. Amcan y cytundeb yw cydnabod a dilysu graddau a roddir gan sefydliadau addysg uwch awdurdodedig a gydnabyddir gan bob ochr. Y graddau yn y DU a gwmpesir yw'r radd Baglor, y radd Meistr a Doethuriaethau.
  10. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cydnabod bod y cytundeb hwn yn ymwneud â chymwysterau academaidd a ddyfernir gan sefydliadau addysg uwch a awdurdodwyd yn swyddogol, sy'n fater datganoledig. Mae'n nodi bod Llywodraeth y DU wedi ymgynghori â'r Llywodraethau Datganoledig ar y gwaith drafftio ac wedi rhannu'r testun drafft perthnasol cyn ei lofnodi. Cynigiodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban fân ddiwygiadau i'r geiriad a gafodd eu hymgorffori yn y fersiynau terfynol.
  11. Mae paragraff 10 o Atodlen 7A i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006) yn darparu bod cysylltiadau rhyngwladol yn fater a gedwir yn ôl. Mae "cysylltiadau rhyngwladol" yn cynnwys cysylltiadau â thiriogaethau y tu allan i'r DU. Fodd bynnag, nid yw arsylwi a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol yn fater a gedwir yn ôl i'r graddau y maent yn ymwneud â materion datganoledig.
  12. Gwnaethom nodi'r cytundeb hwn, a'i fod yn ymwneud â chymwysterau academaidd a ddyfernir gan sefydliadau addysg uwch a awdurdodwyd yn swyddogol, sy'n fater datganoledig.
  13. Gwnaethom gytuno i dynnu sylw Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd at y cytundeb, i gynghori:
    - nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei hasesiad eto nac wedi darparu gwybodaeth am ei effaith; a
    - gosodwyd y cytundeb yn ystod hynt Bil Cymwysterau Proffesiynol Llywodraeth y DU, y gofynnwyd am gydsyniad y Senedd ar ei gyfer. Yn ei Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm), mae Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylai'r Senedd atal ei chydsyniad i'r Bil. Un o'r rhesymau a ddarperir yw bod Llywodraeth y DU wedi methu â chadarnhau wrth Lywodraeth Cymru pa gymwysterau addysgol sydd o fewn cwmpas y Bil, fel cymwysterau addysg bellach.
-

**14.** Byddwn yn adrodd ar wahân ar Femorandwm Llywodraeth Cymru.

### **Y DU-Japan Protocol ar Ddiwygio'r Cytundeb ar gyfer Cydweithredu o ran y Defnydd Heddychlon o Ynni Niwclear**

**15.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 7 Mehefin 2021. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, oedd 13 Gorffennaf 2021.

**16.** Mae'r cytundeb yn ymwneud â chydweithredu o ran y defnydd heddychlon o ynni niwclear, gan gynnwys peidio ag amlhau arfau niwclear. Mae paragraff 99 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006 yn darparu bod ynni niwclear yn fater a gedwir yn ôl.

**17.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau yr ystyrir bod cynnwys polisi'r Protocol Diwygio yn fater a gedwir yn ôl, ac nid yw Llywodraeth y DU wedi ymgynghori â'r Gweinyddiaethau Datganoledig wrth ddrafftio'r Protocol Diwygio.

**18.** Gwnaethom nodi'r cytundeb a chytuno i dynnu sylw Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd ato, yn enwedig o ran goblygiadau'r cytundeb, os o gwbl, i ynni niwclear yng Nghymru.

### **Diogelu Gwybodaeth Gyfrinachol: cytundebau y DU/Estonia, y DU/Latfia, y DU/Gwlad Belg a'r DU/yr Eidal**

**19.** Ym mis Mehefin 2021, gosodwyd pedwar cytundeb rhyngwladol rhwng y DU ac Aelod-wladwriaethau unigol yr UE (Estonia, Latfia, Gwlad Belg a'r Eidal) yn Senedd y DU ar amddiffyn gwybodaeth gyfrinachol.

**20.** Mae cynnwys y cytundebau yn debyg ac felly fe'u hystyriwyd gyda'i gilydd.

**21.** Nod y cytundebau hyn yw darparu sail gyfreithiol ar gyfer diogelu gwybodaeth gyfrinachol a gyfnewidir rhwng y DU ac Estonia, y DU a Latfia, y DU a Gwlad Belg a'r DU a'r Eidal, a allai gynnwys pynciau fel amddiffyn, gorfodi'r gyfraith, gwrthderfysgaeth a diogelwch.

**22.** Mae materion yn ymwneud ag amddiffyn a diogelwch gwladol wedi'u cadw gan baragraffau 11 a 32 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006.

**23.** Nodwyd y cytundebau a chytunwyd i:

- ofyn am asesiad Llywodraeth Cymru o oblygiadau'r cytundebau, os o gwbl, i Gymru a'i chontractwyr, gan gynnwys a yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â chasgliad

Llywodraeth y DU nad oes gan y cytundebau 'ddim goblygiadau i'r gweinyddiaethau datganoledig'; a

- thynnu sylw Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd at y cytundebau, mewn perthynas â'u goblygiadau, os o gwbl, i asiantaethau cyfiawnder troseddol yng Nghymru.

## **Confensiwn Byd-eang UNESCO ar Gydnabod Cymwysterau sy'n ymwneud ag Addysg Uwch**

**24.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 20 Gorffennaf 2021. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, oedd 2 Tachwedd 2021.

**25.** Mae Confensiwn Byd-eang UNESCO ar Gydnabod Cymwysterau sy'n ymwneud ag Addysg Uwch yn darparu fframwaith byd-eang ar gyfer cydnabod cymwysterau addysg uwch a chymwysterau sy'n rhoi mynediad i addysg uwch. Hwn yw cytuniad cyntaf y Cenhedloedd Unedig ar addysg uwch sy'n rhwymo mewn cyfraith.

**26.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cydnabod bod y cytundeb hwn yn ymwneud â pholisi addysg fel mater datganoledig. Mae'n egluro bod Llywodraeth y DU wedi ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig ar ddrafftio'r cytundeb ac wedi rhannu'r testun drafft perthnasol cyn ei fabwysiadu gan Gynulliad Cyffredinol UNESCO.

**27.** Fel y nodwyd ym mharagraff 6, mae cysylltiadau rhyngwladol yn fater a gedwir yn ôl fel y darperir gan baragraff 10 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006. Fodd bynnag, nid yw arsylwi a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol yn fater a gedwir yn ôl i'r graddau y maent yn ymwneud â materion datganoledig. Mae'r cytundeb hwn yn ymwneud â chydabod cymwysterau addysg uwch, sy'n fater datganoledig.

**28.** Gwnaethom nodi'r cytundeb a chytuno i dynnu sylw Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd at y cytundeb, i gynghori:

- nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei hasesiad eto nac wedi darparu gwybodaeth am ei heffaith, ac nid yw ychwaith wedi cadarnhau a yw trefniadau rhynglywodraethol ar gyfer cynrychiolaeth y DU wedi'u cwblhau ar gyfer Cynhadledd Rynglywodraethol y Confensiwn (sydd i'w chynnal bob dwy flynedd);
- gosodwyd y cytundeb yn ystod hynt Bil Cymwysterau Proffesiynol Llywodraeth y DU, y gofynnwyd am gydsyniad y Senedd ar ei gyfer. Yn ei Memorandwm, mae Llywodraeth Cymru yn argymhell bod y Senedd yn atal ei chydysyniad i'r Bil ac un o'r

rhesymau a ddarperir yw bod Llywodraeth y DU wedi methu â chadarnhau i Lywodraeth Cymru pa gymwysterau addysgol sydd o fewn cwmpas y Bil.

**29.** Byddwn yn adrodd ar wahân ar Femorandwm Llywodraeth Cymru.

### 3. Cytundebau a nodwyd er gwybodaeth

#### **Y DU/Rwsia: Protocol Diwygio'r Cytundeb ynghylch Atal Digwyddiadau ar y Môr**

- 30.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 16 Gorffennaf 2021. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, oedd 22 Gorffennaf 2021.
- 31.** Y nod yw diwygio'r cytundeb ynghylch Atal Digwyddiadau ar y Môr y Tu Hwnt i'r Môr Tiriogaethol 1986 (INCSEA), sy'n cymhwysu llongau milwrol ac awyrennau sy'n gweithredu y tu allan i'r môr tiriogaethol.
- 32.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod INCSEA yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl yn llwyr heb unrhyw oblygiadau i'r Gweinyddiaethau Datganoledig ac felly nid yw wedi ymgynghori â'r Gweinyddiaethau Datganoledig ar ddrafftio'r Protocol hwn.
- 33.** Mae'r cytundeb yn ymwneud â llongau milwrol ac awyrennau sy'n gweithredu y tu allan i'r môr tiriogaethol, parth morol sydd fel rheol yn ymestyn 0-12 milltir forol o farc llanw isel yr arfordir.
- 34.** Er bod gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd gymhwysedd ar gyfer rhai materion y tu allan i'r môr tiriogaethol, mae'r cytundeb hwn yn ymwneud â symudiadau milwrol nad yw'n fater datganoledig. Mae amddiffyniad, gan gynnwys y llynges, lluoedd milwrol neu luoedd awyr y Goron yn faterion a gedwir yn ôl fel y darperir ym mharagraff 11 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006.
- 35.** Gwnaethom nodi'r Protocol er gwybodaeth.